



## CANLLAWIAU'R FAW AR GYFLEUSTERAU NEWID

**Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW) yn deall na fydd gan bob sefydliad ei gyfleusterau newid ei hun, ac o'r herwydd, dylid ystyried y mesurau canlynol fel arfer gorau.**

- Os yw'n defnyddio cyfleuster awdurdod lleol/preifat, yna mae'n debygol iawn y gallai'r cyfleusterau newid fod ar agor i aelodau'r cyhoedd. Os felly, bydd angen ystyried y canlynol:
  - o A oes modd trefnu ystafell ar wahân i'r chwaraewyr
  - o A oes modd trafod cyfnod amser dethol i'r chwaraewyr?
  - o A oes modd trefnu ardal benodol o fewn y cyfleuster nad oes neb arall yn cael ei defnyddio?
  - o A oes modd i'r chwaraewyr newid gartref?
    - Os nad yw'n bosib gwneud unrhyw un o'r uchod, yna rhaid i'r chwaraewyr gael eu goruchwylio bob amser gan o leiaf 2 unigolyn o'r un rhyw a chanddynt wiriadau DBS cyfredol a dilys ac sydd wedi cwblhau'r broses gofrestru ar y system comet.
- Os yw'n defnyddio cyfleuster awdurdod lleol/preifat, gwnewch yn siŵr bod y clwb yn cadw at ganllawiau neu bolisi ei gyfleusterau newid.
- Ar gyfer plant o dan 10 oed, rhaid iddynt gael eu goruchwylio gan 2 unigolyn o'r un rhyw bob amser a rhaid iddynt gael gwiriadau DBS cyfredol a dilys a bod wedi cofrestru ar y system comet.
- Ar gyfer plant anabl, dylai'r clwb gysylltu â'u rhieni/gofalwyr i asesu'r lefelau gofynnol o gymorth i ddiwallu eu hanghenion.
- Os oes gennych dimau o rywedd cymysg, dylid ystyried y mesurau canlynol:
  - o A oes modd trefnu cyfleusterau newid ar wahân?
  - o A yw'n bosibl i bob rhyw gael cyfnod amser penodol yn y cyfleuster neu ddim ond nhw i'w ddefnyddio?
  - o A oes modd i'r chwaraewyr newid gartref?
- Rhaid i'r rhai sydd â chyfrifoldebau goruchwylio fod â gwiriad DBS cyfredol a dilys, fod wedi cofrestru ar y system comet a bod wedi llofnodi'r Cod Ymddygiad Hyfforddwyr/Gwirfoddolwyr.
- Ni ddylai oedolion ddefnyddio'r cyfleusterau newid ar yr un pryd â'r tîm e.e. hyfforddwyr, dyfarnwyr. Os nad oes modd osgoi hynny, rhaid cael caniatâd rhiant i ganiatáu i blant ac oedolion ddefnyddio'r cyfleusterau ar yr un pryd.
- Ni ddylid byth roi pwysau ar blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r cyfleusterau. Yn hytrach, gellir eu hannog i newid gartref.
- Rhaid peidio defnyddio ffonau symudol, tabledi, camerâu ayb yn yr ystafell newid.
- Ni chaiff gwirfoddolwyr byth gwblhau tasgau o natur bersonol oni bai y gofynnir yn benodol iddynt wneud hynny gan riant/gwarcheidwad.

